


## Adroddiad o:
## Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant

# Adroddiad Blynyddol

## 2018- 2019

CARDIFF
CAERDYDD

**Cyngor Caerdydd**

## Aelodaeth y Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant



Y Cynghorydd Nigel Howells

(Cadeirydd)



Councillor Iona Gordon



Yn Cynghorydd Jane Henshaw



Councillor Gavin Hill-John



Councillor Thomas Parkhill



Councillor Adrian Robson



Councillor Abdul Sattar



Councillor Elaine Simmons[1]



Councillor Ed Stubbs

# CYLCH GORCHWYL PWYLLGOR CRAFFU YR AMGYLCHEDD A DIWYLLIANT

- Craffu, mesur a mynd ati i hyrwyddo gwelliant o ran perfformiad y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau a chydymffurfio â pholisïau, nodau ac amcanion y Cyngor ym maes adfywio economaidd.
  ○ Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ○ Buddsoddi Mewnol a marchnata Caerdydd ○ Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru ○ Strategaeth a Chyflogaeth Economaidd ○ Cyllid a Buddsoddi Ewropeaidd ○ Cymorth i Fentrau Bach i Ganolig eu Maint ○ Awdurdod Harbwr Caerdydd ○ Dysgu Gydol Oes ○ Canolfannau Hamdden ○ Datblygu Chwaraeon ○ Parciau a Mannau Gwyrdd ○ Llyfrgelloedd, y Celfyddydau a Diwylliant ○ Adeiladau Dinesig ○ Digwyddiadau a Thwristiaeth ○ Projectau Strategol ○ Canolfannau Arloesedd a Thechnoleg ○ Hyfforddiant a Mentrau Lleol

- Asesu effaith partneriaethau gyda sefydliadau allanol a gwasanaethau a ddarperir ganddynt gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau llywodraeth leol ar y cyd, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru a chwangos ar effeithiolrwydd darparu gwasanaethau'r Cyngor.

[1] Councillor Simmons was a Member of the Committee until March 2019

- Adrodd am gyfarfod priodol y Cabinet neu'r Cyngor ar ei ddarganfyddiadau a gwneud argymhellion ar fesurau, a fydd o bosibl yn gwella perfformiad neu ddarparu gwasanaethau y maes hwn.

## RHAGAIR Y CADEIRYDD

Rydym wedi cael blwyddyn brysur arall ac rwy'n falch bod Aelodau'r Cabinet wedi rhannu'r llwyth gwaith, gan gymryd rhan mewn ymchwiliadau gorchwyl a gorffen ac ar ein hymweliadau â gwahanol safleoedd. Roedd yr ymweliadau hyn yn cynnwys staciau storio Gwasanaethau Llyfrgelloedd yn Dominions Way, safleoedd gweithdy ledled Caerdydd, fel rhan o'n Hymchwiliad '*Gweithdai ac Adeiladau Arloesedd y Cyngor'* ac ymweliad â Stadiwm y Principality, fel rhan o'n hymchwiliad '*Digwyddiadau yng Nghaerdydd'.* Gwnaeth yr ymweliadau hyn rai o'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau yn ddiriaethol. Yn hanfodol, galluogodd yr ymweliadau i ni glywed yn uniongyrchol gan eu rhanddeiliaid, y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'r rhai sy'n gweithio mewn partneriaeth â ni i ddarparu gwasanaethau. Mae hyn yn agwedd hanfodol ar graffu ac rydym wedi gweithio i annog rhanddeiliaid i gyfranogi a gwella ein gwaith drwy gydol y flwyddyn, yn y pwyllgor a thrwy grwpiau gorchwyl, yn bersonol ac yn ysgrifenedig. Hoffwn ddiolch i'r holl rai sydd wedi cyfrannu at ein gwaith yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Aelodau'r Cabinet, sefydliadau partner, defnyddwyr gwasanaeth a phreswylwyr. Wrth gwrs, mae'r gwaith rydym yn ei wneud, a'i ansawdd yn dibynnu ar y gefnogaeth rydym yn ei derbyn gan swyddogion o fewn y gwasanaeth craffu. Yn hyn o beth, rydym yn ffodus iawn yng Nghaerdydd bod gennym swyddogion rhagorol sy'n gweithio'n galen i gefnogi'r gwaith a wnawn. Mae'n rhaid crybwyll ein Prif Swyddog Craffu, Angela Holt, y mae ei hymrwymiad a'i phroffesiynoldeb wedi helpu i ffurfio ansawdd ein hadroddiadau a'n hargymhellion.

Fel Pwyllgor, rydym wedi ymrwymo i ychwanegu gwerth a ffocysu ein hamser yn unol â hynny. Ceisiom fewnbwn Aelodau'r Cabinet ac uwch swyddogion wrth lunio ein rhaglen waith, gan ofyn am eu barn am ble y gellir defnyddio adnodau craffu orau. Arweiniodd hyn atom yn dewis dau faes i'w craffu'n fanwl eleni – ein hymchwil i '*Gweithdai ac Adeiladau Arloesedd y Cyngor'* Rwyf wir yn ddiolchgar i'r holl rai a gyfrannodd syniadau, profiadau ac arbenigedd ac i'm cydweithwyr ar y grŵp gorchwyl, y Cynghorydd Gavin Hill-John, y Cynghorydd Robson, Y Cynghorydd Iona Gordon, y Cynghorydd Jane Henshaw a'r Cynghorydd Thomas Parkhill a eu hamser a'u cymorth wrth ymgymryd a'r adroddiadau pwysig hyn a'u cwblhau. Hyderwn y bydd ein hadroddiadau ar yr ymchwiliadau o ddefnydd i'r weinyddiaeth wrth benderfynu ar y ffordd ymlaen ar gyfer y meysydd hyn sy'n allweddol i ddyfodol economi Caerdydd.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi hyrwyddo'r angen am ddatblygu cynaliadwy, yn benodol yr angen i ddefnyddio buddion datblygu economaidd i hyrwyddo darparu trafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd uchel sy'n fforddiadwy ac yn ddibynadwy. Mae gennym flwyddyn ddiddorol arall o'n blaenau, gan graffu ar y weledigaeth ar gyfer Datblygu Economaidd a'i ryngwyneb gyda'r Fargen Ddinesig yn ogystal â newidiadau i wasanaethau rheng flaen. Rydym yn benderfynol o weithio'n adeiladol i yrru gwelliant i breswylwyr, ymwelwyr, busnesau a phartneriaethau yn ein polisïau a'n gwasanaethau ac i herio cynigion o bersbectif datblygu cynaliadwy, yng ngoleuni'r argyfwng o ran Newid yn yr Hinsawdd rydym i gyd yn ei wynebu.

 **Y Cynghorydd Nigel Howells**

**Cadeirydd, Pwyllgor Craffu yr Economi a Diwylliant**

# CYFLWYNIAD AC ADOLYGIAD 2018-19

Mae Pwyllgor Craffu yr Economi a Diwylliant yn chwarae rôl bwysig o ran asesu perfformiad gwasanaethau ac arwain datblygu polisïau ar draws ystod o wasanaethau'r Cyngor.

Mae'r Pwyllgor yn clywed gan dystion amrywiol i arwain y gwaith hwn, gan gynnwys Aelodau Cabinet perthnasol, swyddogion y cyngor, sefydliadau partner, dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth. Yn ystod 2018, craffodd yr Aelodau Pwyllgor ar eitemau ar draws nifer o feysydd Portffolio y Cabinet, fel a ganlyn:

- Y Cynghorydd Huw Thomas – Arweinydd
- Y Cynghorydd Peter Bradbury – Diwylliant a Hamdden
- Y Cynghorydd Russell Goodway – Buddsoddi a Datblygu
- Y Cynghorydd Sarah Merry – Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau
- Y Cynghorydd Michael Michael – Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd
- Y Cynghorydd Lynda Thorne – Tai a Chymunedau.

Y Cyfarwyddiaethau sydd ynghlwm wrth gylch gorchwyl y Pwyllgor yw Datblygu Economaidd; a Phobl a Chymunedau: Tai a Chymunedau. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod 2018-19 a lle y bo'n posibl, yn nodi effaith gwaith y Pwyllgor ar y meysydd o fewn ei gylch gorchwyl. Rhwng mis Gorffennaf 2018 a Mai 2019, craffodd y Pwyllgor ar ystod eang o bynciau, a restrir isod.

**Ymchwiliadau**

Lle y mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd ag ymchwiliad o bwnc dros gyfnod, gan arwain at adroddiad ffurfiol i'r Cabinet.

- Ymateb y Cabinet: Ymchwiliad i Ariannu Parciau (*Hydref 2018)*

- Gweithdai ac Adeiladau Arloesedd y Cyngor *(Tachwedd 2018)* ac Ymateb y Cabinet i hyn *(Ebrill 2019)*
- Digwyddiadau yng Nghaerdydd *(Chwefror 2019).*

**Datblygu a/neu Adolygu Polisïau**

Pan fydd y Pwyllgor wedi cyfrannu at brosesu datblygu polisi'r Cyngor, er enghraifft trwy ystyried dogfennau polisi drafft, a/neu pan fydd y Pwyllgor wedi ystyried gweithredu polisïau, gan edrych ar a yw hyn wedi digwydd yn amserol ac effaith y polisi, gan roi cyfle i'r Cabinet wybod

barn Aelodau Craffu ar a oes angen unrhyw newidiadau.

- Dysgu Cymunedol Oedolion – Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru
- Arloesedd
- Adfywio Dumballs Road
- Cyflogaeth/ Gwasanaethau Cyflogadwyedd
- Partneriaeth Rheoli Hamdden gyda GLL
- Arwain Strategaeth Cerddoriaeth: Ecosystem Cerddoriaeth ac Argymhellion Strategol  Awdurdod Harbwr Caerdydd – Adolygiad o drefniadau presennol.

**Cyn y penderfyniad**

Pan fydd y Pwyllgor wedi arfarnu a gwneud sylwadau ar gynigion polisi cyn iddynt fynd i'r Cabinet, gan roi cyfle i'r Cabinet wybod barn yr Aelodau Craffu cyn gwneud eu penderfyniad.

- Britannia Park – Harbour Drive
- Arena Dan Do Aml-ddefnydd
- Sicrhau Cyllid y Cyngor ar gyfer Adeiladau Treftadaeth
- Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus: Rheoliadau Cŵn Arfaethedig
- Llwybr y Papur Gwyn Datblygu Economaidd
- Cynllun Corfforaethol 2019-22 a Chyllideb 2019/20
- Strategaeth Economaidd Drafft: Papur Gwyn Datblygu Economaidd.

**Monitro**

Pan fydd y Pwyllgor wedi ymgymryd â monitro perfformiad a chynnydd y Cyngor wrth weithredu camau gweithredu y cytunwyd arnynt o'r blaen.

- Cynllun Cyflawni y Gyfarwyddiaeth – Datblygu Economaidd; Pobl a Chymunedau: Tai a Chymunedau
- Adroddiadau Perfformiad Chwarterol - Datblygu Economaidd; Pobl a Chymunedau: Tai a Chymunedau – gan gynnwys briff perfformiad.

- Monitro’r Gyllideb – Mis 4, Mis 6 a Mis 9
- Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru
- Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd: Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu.

**Galw i mewn**

Pan fydd Aelod anweithredol yn dechrau’r weithdrefn Galw i mewn o dan Gyfansoddiad y Cyngor, er mwyn adolygu Penderfyniad Gweithredol cyn gweithredu.

- Dim

Dros y cyfnod Mehefin 2018 – Mai 2019 cynhalio 10 cyfarfod pwyllgor ac ysgrifennom 19 o lythyrau i’r Cabinet, y swyddogion a’r partneriaid allanol, gan rannu ein sylwadau, ein hargymhellion a’n pryderon yn dilyn craffu eitemau mewn cyfarfodydd pwyllgor. Cafodd tri o’n cyfarfodydd pwyllgor eu gwe-ddarlledu ac edrychwyd arnynt 184 gwaith. Roedd y mwyafrif o’r rhain ar gyfer ein cyfarfod ar y cyd â’r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol pan gwnaethom ystyried y Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Arfaethedig: Rheoliadau Cŵn; ffrydiwyd y cyfarfod hwn ar Facebook hefyd ac edrychwyd arno 699 o weithiau.

Hefyd cynhaliom 2 gyfarfod fforwm – un i ystyried ein rhaglen waith a’r llall i ystyried cynigion ymgynghori Llywodraeth Cymru ar gyfer Dysgu Cymunedol i Oedolion. Cynhaliodd y Pwyllgor 2 ymholiad gorchwyl a gorffen ac mae’r ddau ohonynt wedi cyflwyno eu hadroddiadau i’r Cabinet eleni.

Thema barhaus drwy gydol y flwyddyn oedd ein hawydd i sicrhau bod cynigion ar gyfer datblygu economaidd yn cydweddu â'n hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. Yn ogystal â bod yn ofyniad o'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, mae'r angen am egwyddorion cynaliadwyedd i danategu datblygu economaidd yn glir o'r argyfwng Newid yn yr Hinsawdd rydym yn ei wynebu. Roedd hyn yn rhywbeth a drafododd y Cyngor ym mis Mawrth 2019, lle y pasiom gynnig i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu arfer gorau wrth leihau carbon, gan helpu i gyfyngu ar gynhesu byd-eang.

Mae’r tudalennau canlynol yn amlygu gweithgareddau allweddol y Pwyllgor yn ystod 2018-19, nodi'r sylwadau a'r argymhellion a wnaed ac ymatebion y Cabinet i'r rhain.

## Ymateb y Cabinet: Ymchwiliad i Ariannu Parciau

Ym mis Hydref 2018, derbyniom yr ymateb gan y Cabinet i'n hargymhellion a wnaed yn dilyn ein Hymchwilio i Ariannu Parciau (*Ebrill 2018*). Archwilio ein Hymchwiliad i ystod eang o greu incwm ac ymagweddau lleihau costau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol eraill. Gwnaethom wahodd cyfraniadau gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys Grwpiau Cyfeillion, defnyddwyr meysydd chwaraeon a sefydliadau bywyd gwyllt partner. Hefyd clywsom gan Gymdeithas Ddinesig Caerdydd, Ceidwaid Parciau Trefol a Cheidwaid Parciau Cymunedol, uwch-swyddogion a'r Cynghorydd Peter Bradbury, yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros Parciau a Mannau Gwyrdd.

Daeth ein Hymchwiliad ychydig o le yn unig ar gyfer rhagor o leihad mewn costau heb effeithio'n sylweddol ar allu'r Cyngor i cynnal a chadw parciau Caerdydd i'w safon presennol. Yn nhermau creu incwm, daethom o hyd i le i greu rhagor o incwm trwy ddefnyddio nifer o ymagweddau, er y byddai angen newidiadau ar rai o'r rhain, megis consesiynau ychwanegol mewn Parciau.

Canolbwynt ein hargymhellion oedd egluro'r diben a'r ffocws ar gyfer Gwasanaethau Parciau, er mwyn cyfarwyddo cyfradd, cwmpas a llwybrau derbyniol ar gyfer creu incwm. Hefyd argymhellom na fydd toriadau ymhellach i wasanaeth Ceidwaid y Parc.

Allan o dri ar ddeg o argymhellion, derbyniodd y Cabinet naw yn llwyr a derbyniodd dri. Cafodd un argymhelliad mo'i dderbyn; roedd hyn mewn perthynas â pheidio â chael rhagor o doriadau i'r gyllideb sy'n talu am geidwaid parciau trefol a chymunedol. Datganodd Ymateb y Cabinet na allai'r Cabinet ganiatáu i benderfynu ar gyllidebau gael eu clymu i mewn i argymhellion Craffu penodol. Rydym yn falch o nodi, pan bennwyd y gyllideb ar gyfer 2019/20, ni roddwyd unrhyw gynigion arbedion ger bron ar gyfer gwasanaethau'r Ceidwad Parciau.

Mewn datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd adeg Ymateb y Cabinet, y Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant , dywedodd y Cyngor Peter Bradbury: *“Mae'r adroddiad hwn wedi dod â rhai syniadau da iawn i'r amlwg ac rwy'n ddiolchgar i graffu am y gwaith caled a*

*aeth i mewn iddo......Mae'r adroddiad Craffu wedi awgrymu rhywfaint o argymhellion gwerth chweil y byddwn yn eu dilyn.”*

Mae swyddogion wedi datblygu cynllun gweithredu i weithredu’r argymhellion y cytunwyd arnynt; byddwn yn monitro cynnydd wrth gyflawni’r rhain.

## Gweithdai'r Cyngor ac Adeiladau Arloesedd

Derbyniom gais i ymgymryd ag ymchwiliad i’r ffordd ymlaen parthed gweithdai a berchnogir gan y Cyngor ac adeiladau arloesedd, i helpu i arwain datblygu polisi yn y meysydd hyn.

Ym mis Awst 2018, ymwelom â gweithdai cyngor ledled y ddinas i weld yr ystod o feintiau a mathau ar unedau ac i gyfarfod â busnesau i glywed eu barn ar ddarpariaeth bresennol. Wedyn clywom dystiolaeth gan Aelodau’r Cabinet, uwch swyddogion, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru, a Gareth Jones, cyd-sylfaenydd Canolfan Arloesedd Cymru dros Fenter a Sgwâr y Dref.

Gwelsom angen clir i’r Cyngor barhau i ddarparu gweithdai bach, cost isel ar gyfer busnesau newydd a rhai sy’n tyfu. Fodd bynnag, mae gan nifer o safleoedd presennol gostau cynnal a chadw cynyddol; argymhellom y dylid gwaredu'r safleoedd a defnyddio'r arian a dderbynnir i fuddsoddi mewn mannau gweithdai mwy agos. Daethom o hyd i dwf sylweddol mewn cyflenwi ystod o fannau arloesedd, o brifysgolion, y diwydiant cyllid, mannau cydweithio a gweithio'n unigol; o ganlyniad, mae llai o angen i'r Cyngor fod yn rhan o ddarparu mannau arloesedd. Gwelsom angen i feddwl am sut rydym yn helpu busnesau i fod yn 'barod am y farchnad' ac i symud i ddarpariaeth yn y sector preifat. Yn arwyddocaol, clywsom fod bwlch yn argaeledd cyngor a mentora manwl ar gyfer busnesau sydd newydd gychwyn a busnesau sy'n tyfu, sy'n llesteirio twf arloesedd.

Aeth ein hargymhellion i’r afael â’r darganfyddiadau hyn, gyda chyfeiriad clir i ddarparu mannau gweithdy newydd ac yn fwy addas, helpu busnesau i fod yn gynnar ar gyfer y farchnad ac i lenwi'r bwlch mewn gwasanaethau cyngor a mentora presennol.

O naw argymhelliad, derbyniodd y Cabinet chwech yn llawn a derbyniodd dri yn rhannol, gan gytuno bod angen i'r Cyngor weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus ac ar

draws y sectorau busnes er mwyn bodloni'r galw am adeiladau gweithdy ac arloesedd a dweud y bydd yr ymagwedd hon yn ffurfio sail ei strategaeth er mwyn cefnogi arloesedd. Mae ymateb y Cabinet hefyd yn amlygu'r anawsterau wrth feincnodi derbyniadau cyfalaf ar adeg pan fydd angen i'r Cyngor ddod o hyd i adnoddau i ariannu ei Raglen Gyfalaf; yn hynny o beth mae clustnodi derbynebau yn gyfyngedig ond yn bosibl o dan rhai amgylchiadau penodol.

## Digwyddiadau yng Nghaerdydd

Derbyniom gais gan y Cynghorydd Peter Bradbury, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, i ymgymryd ag ymchwiliad i sut olwg a ddylai fod ar y rhaglen o ddigwyddiadau yng Nghaerdydd a beth ddylai fod rôl y Cyngor parthed digwyddiadau.

Er mwyn arwain yr Ymchwiliad, clywsom gan Aelodau'r Cabinet, uwch swyddogion, swyddogion Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro, trefnwyr digwyddiadau, For Cardiff (*Ardal Gwella Busnes Caerdydd),* Cardiff Hoteliers Association, Yr Athro Terry Stevens a John Rostron, ymgynghorydd cerddoriaeth lleol. Derbyniodd yr Ymchwiliad gyfraniadau ysgrifenedig gan Artes Mundi, Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a grŵp o breswylwyr Pontcanna a Glanyrafon. Fel rhan o'r Ymchwiliad, aethom i Stadiwm y Principality i glywed eu barn. Hefyd edrychom ar ymgynghoriadau Cyngor Caerdydd a oedd yn cynnwys barn ymatebwyr parthed digwyddiadau yng Nghaerdydd. Ymgymerwyd ag ymchwil desg i mewn i ymagweddau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol eraill ac ymgymerwyd hefyd ag adolygiad lefel uchel o ddatblygiadau diweddar parthed Ardoll Digwyddiadau a Threth Twristiaeth.

Gwelsom fod digwyddiadau'n werth chweil ar gyfer Caerdydd, yn economaidd ac yn gymdeithasol, gan wella bywydau dinasyddion a chefnogi llawer o swyddi a busnesau yng Nghymru. Fodd bynnag, maent hefyd yn dod â chostau i wasanaethau statudol, na chaiff eu had-dalu. Mae'r holl ffactorau hyn, ynghyd â'r lleihad o ran adnoddau'r Cyngor sydd ar gael, yn golygu ei fod yn amser ailfeddwl ein hymagwedd at ddigwyddiadau yng Nghaerdydd.

Nod ein hargymhellion yw rhoi Cyngor Caerdydd mewn rôl galluogi a hwyluso, gan gadw'n fewnol ein swyddogaeth allweddol sef cydlynu ymdrechion partner, atgyfnerthu ein hymagwedd strategol, datblygu digwyddiad nodweddiadol, lobio am ragor o gyllid i dalu'r

costau yr eir iddynt gan wasanaethau statudol, ac ymateb i bryderon cymunedau yr effeithir arnynt. Mae angen i Gaerdydd gryfhau ymhellach ei chalendr digwyddiadau a chynyddu etifeddiaeth ac effaith y digwyddiadau, er budd cymunedau lleol a Chymru.

Cyflwynodd y Cynghorydd Henshaw yr adroddiad i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2019; amserlennir ymateb gan y Cabinet ar gyfer mis Mehefin 2019.

## Datblygu ac Adfywio Economaidd

Rôl allweddol y Pwyllgor hwn yw craffu ar ddatblygu economaidd a mentrau adfywio. Bellach edrychwn ar sut i wella sydd gan y rhain ar gyfer dinasyddion a chymunedau, sut i wneud y mwyaf o fuddion megis cyflogaeth, hyfforddi a chysyllted, ac rydym yn gwirio bod cynlluniau yn gweithio gyda'i gilydd ac yn ffitio'n gydlynol i mewn i economi ehangach y rhanbarth-ddinas. Hefyd rydym yn craffu ar gyfraniad ariannol y Cyngor ac a oes unrhyw risgiau i'r Cyngor ac os felly, sut yr eir i'r afael â'r rhain a'u lliniaru. Yn hanfodol, rydym yn archwilio'r tensiynau creadigol a all fodoli wrth ofyn i ddatblygu economaidd hybu cyfleoedd am swyddi a chynyddu cyfoeth a datblygu cynaliadwy lleol sy'n helpu i fynd i'r afael a newid yn yr hinsawdd. Nid yw'r tensiynau hyn yn anorchfygol – gallwn ddilyn twf cynhwysol sy'n isel o ran carbon a gallwn gasglu buddion cymunedol sy'n mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd - cyhyd  a bod trafodaeth gyda phartneriaid am y newid am y rhain, o'r cam dylunio cychwynnol ymlaen.

Eleni, mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar nifer o gynigion proffil uchel, fel y rhestrir isod.

**<u>Adfywio Dumballs Road</u>**

Mae safle adfywio Dumballs Road tua 40 erw ac mae o fewn Parth Menter Caerdydd Canolig. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r datblygwr, Vastint, i gytuno ar gynllun cynhwysfawr ar gyfer y safle. Ym mis Hydref 2018, derbyniom gyflwyniad gan Vastint gan archwilio materion yn benodol sy'n perthyn i unedau masnachol arfaethedig, cyfleoedd cyflogi a hyfforddi, gofod cymunedol a'r broses gysylltu gyda busnesau presennol sydd ar y safle, yn ogystal a'n themâu cyffredinol parthed cynaliadwyedd, cydweddu gyda chynlluniau eraill a'r economi ehangach, cyfraniad ariannol y Cyngor a risgiau i'r Cyngor.

Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi'r cysyniadau dylunio arfaethedig, gan gynnwys yr ymrwymiad i greu cymunedau cysylltiedig, wedi'u cymysgu a chytbwys mewn datblygiad sy'n integreiddio gyda'r ardaloedd o'n cwmpas, yn Ogledd/De a Dwyrain/Gorllewin. Rydym hefyd yn cefnogi'r ymrwymiad i ddarparu mannau cyhoeddus a phreifat gwyrdd ac agored. Mae hwn yn safle strategol bwysig i'r Cyngor, yn nhermau lleoliad ac yn nhermau'r cyfleoedd mae'n eu rhoi i arddangos datblygu economaidd a datblygu cynaliadwy ar waith. Enghraifft o hyn yw'r gallu i gydleoli mannau cartref a gweithio, gan leihau'r angen i deithio ac felly'n mynd i'r afael ag un o ffynonellau allweddol newid yn yr hinsawdd.

Rydym yn cytuno â'r symud arfaethedig i ffwrdd o ddefnyddiau diwydiannol trymach tuag at fathau gwahanol o ddefnydd masnachol, gan gynnwys mannau ar gyfer diwydiannau creadigol a mentrau cydweithio ac yn gobeithio y gall y mannau hyn hefyd gynnal diwydiannau ysgafnach, crefft, megis cerameg. Dangosodd ein gwaith gorchwyl a gorffen mewn adeiladau Gweithdy ac Arloesedd fod galw sylweddol am y mathau hyn ar fannau. Rydym yn argymell bod Vastint yn siarad ag adrannau'r Diwydiannau Creadigol ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru i gael rhagor o fewnwelediad i brofiadau eu myfyrwyr a'u halumni, er mwyn helpu i fframio'r cynnig masnachol i fodloni'r galw lleol. O ystyried yr amser ar gyfer ailddatblygu'r safle, roeddem hefyd yn credu y byddai'n werth chweil siarad â'r prifysgolion lleol ac i rwydwaith Caerdydd Creadigol ynglŷn â sut i ddefnyddio'r mannau sydd ar gael yn gynhyrchiol ac yn sympathetig yn ystod y camau ail-datblygu ar gyfer 'defnyddiau yn y cyfamser'.

Yn y cyfarfod, amlygom, gan fod hwn yn ail-ddatblygiad ar raddfa fawr, dylai fod cyfleoedd cyflogaeth a hyffordd i'r boblogaeth leol. Roeddem yn falch o glywed y bydd y Cyngor yn helpu i sefydlu cysylltiadau rhwng Vastint a Choleg Caerdydd a'r Fro er mwyn sicrhau y gwneir y mwyaf o gyfleoedd hyfforddi.

Roedd yn ddiddorol gennym glywed bod Vastint a'r Cyngor yn gweithio gyda thenantiaid presennol i'w helpu i adleoli i safleoedd priodol ac roeddem yn falch o weld bod y rhan fwyaf o'r rhain wedi aros yng Nghaerdydd.

Yn ei ymateb i'n llythyr, mynegodd y Cynghorydd Goodway ei ddiolchgarwch am gefnogaeth y Pwyllgor ar y project hwn a dywedodd '*rydym wedi ystyried y gwahanol safbwyntiau a fynegwyd yn y cyfarfod ac yn eich llythyr'.* Aeth ymlaen i ddweud '*byddwn ni'n siŵr o sicrhau bod Vastint yn cysylltu â phrifysgolion y ddinas yn ogystal ag â*

*rhwydweithiau i ystyried sut y gallant fodloni'r galw. Byddwn hefyd yn rhannu gyda Vastint waith y*
*Pwyllgor Craffu ar arloesedd a mannau gweithdy.'*

**<u>Sicrhau Cyllid y Cyngor ar gyfer Adeiladau Treftadaeth</u>**

Ym mis Tachwedd 2018, craffom ar gynigion ar gyfer sicrhau buddsoddiadau mewn adeiladau treftadaeth a berchnogir gan y Cyngor, gan gynnwys Castell Caerdydd, Neuadd y Ddinas, Marchnad Caerdydd, Y Plasty,
Y Theatr Newydd, Neuadd Dewi Sant, yr Hen Lyfrgell a'r Eglwys Norwyaidd. Derbyniom yr adroddiad i'r Cabinet, a oedd yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol af yn darparu amlinelliad o'r cyflwr cyffredinol, ôl-groniad cynnal a chadw a chostau gweithredu portffolio'r Cyngor o adeiladau treftadaeth. Archwiliom yr ymagwedd arfaethedig ar gyfer sicrhau dyfodol adeiladau treftadaeth Caerdydd, a oes unrhyw risgiau i'r Cyngor, yr amserlin a'r camau nesaf ar argymhellion i'r Cabinet.

Rydym yn argymell diwygiadau i'r adroddiad i'r Cabinet i gynnwys adran ar Farchnad Caerdydd ac i egluro a fyddai adroddiad arall i'r Cabinet ar y Theatr Newydd; codwyd y ddau sylw hwn yng nghyfarfod y Cabinet, ac ymrwymodd y Cabinet i ddod ag adroddiad arall ar gynigion y Theatr Newydd.

Rydym yn glir ynglŷn â gwerth yr adeiladau treftadaeth hyn i genedlaethau'r dyfodol ac yn cydnabod yr angen i ddod o hyd i ddefnyddiau amgen sy'n cynnal eu dyfodol heb leihau eu gwerth o ran treftadaeth. Yn hynny o beth, argymhellom fod y Cyngor yn ceisio gweithio gyda sefydliadau sydd ag arbenigedd a phrofiad wrth sicrhau adeiladau treftadaeth, ac yn cynnwys eu safbwyntiau ar gynigion mewn adroddiadau i'r Cabinet yn y dyfodol. Yn ei ymateb, dywedodd y Cynghorydd Goodway, 'Byddaf yn sicrhau y caiff hyn ei ddilyn a'i gyfeirio mewn adroddiadau yn y dyfodol'

Hefyd amlygom fod angen i'r Cabinet ystyried pob risg i'r Cyngor cyn penderfynu a ddylid trosglwyddo costau cynnal a chadw i weithredwyr lesau; mae'r rhain yn adeiladau

arwyddocaol ac mae angen i ni ffactora i mewn ystyriaeth o risg i enw da os bu trosglwyddo'r adeiladau hyn yn aflwyddiannus. Mae angen rhagor o waith i ddeall yn llawn y risgiau posibl sy'n gysylltiedig a phob adeilad treftadaeth, yn nhermau risgiau sy'n gysylltiedig â statws adeilad rhestredig, statws ymddiriedolaeth, cyfamodau ac amodau grantiau. Rydym wedi gofyn bod manylion yr asesiadau yn cael eu cynnwys, gyda chyngor cyfreithiol priodol, mewn adroddiadau i'r Cabinet yn y dyfodol.

Rydym yn sicr ein bod yn dymuno craffu ymhellach ar gynigion mwy manwl wrth i'r rhain ddod i'r amlwg.

**<u>Arena Dan Do Aml-ddefnydd</u>**

Yn dilyn craffu blaenorol yn 2017-18, rhoddodd yr Aelodau Pwyllgor eu cefnogaeth am Arena Dan Do Aml-ddefnydd, gan gydnabod y buddion i'r brifddinas-ranbarth o fwy o ymwelwyr sy'n dod â mwy o alw am drafnidiaeth gyhoeddus, a thrwy hyn yn cynyddu hyfywedd gwella ein seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus. Hefyd cefnogodd yr Aelodau y dewis leoliad dros dro, yn amodol ar ystyriaeth yn y dyfodol o wybodaeth ychwanegol parthed goblygiadau ariannol a'r achos busnes. Yn ystod eu craffu, pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy, fforddiadwy ac o ansawdd uchel wrth gefnogi'r ymwelwyr ychwanegol â Chaerdydd i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a thrwy hyn ychwanegu at y tagfeydd yng Nghaerdydd a'r rhanbarth a helpu i leihau pwysau newid yn yr hinsawdd. Yn ogystal â hyn, amlygodd yr Aelodau yr angen i swyddogion i archwilio ystod o opsiynau ariannu ac i sicrhau bod yr achos busnes ar gyfer yr arena dan do aml-ddefnydd yn rhoi manylion clir am yr effaith y bydd yr arena yn ei chael ar leoliadau eraill yn y brifddinas-ranbarth.

Ar ôl craffu ar y cynigion amlinellol a'r gwerthusiadau o opsiynau ar gyfer safleoedd posibl, ym mis Tachwedd 2018 ystyriom gamau nesaf y datblygiad yr Arena Dan Do, gan gynnwys yr angen am wiriadau annibynnol ar gynigion y datblygwr. Datganom ei fod yn hanfodol bod gan y Cyngor gyngor cadarnhaol, annibynnol i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gydymffurfio'n gyfreithiol ac yn cyflawni gwerth am arian mewn datblygiad sydd mor gymhleth â'r arena dan do. Yn hynny o beth, rhoesom ein cefnogaeth i ddiwydrwydd dyladwy, dylunio a chostau gwaith cyn datblygu gael eu talu.

Gwnaethom ymrwymo i sicrhau bod amser ar gael i graffu cynigion ymhellach gan bod y rhain yn datblygu ac yn datgan ein bod yn dymuno derbyn tystiolaeth o brofi'r farchnad i ddangos bod datblygiad yr arena dan do yn gallu bod yn gadarn yn erbyn cystadleuwyr.

Dywedom y byddem hefyd yn gofyn am swyddogion cyngor cyllid a chyfreithiol fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn er mwyn rhoi cyngor i'r Pwyllgor a rhoi gwybod ein bod â diddordeb mewn gwahodd yr ymgynghorwyr annibynnol, a gaffaelwyd i ymgymryd a diwydrwydd dyladwy, i fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Yn ei ymateb, dywedodd y Cynghorydd Goodway ei fod yn 'ddiolchgar am yr amser a gymerwyd gan eich cydweithwyr ar gyfer y mewnbwn adeiladol y maent wedi'i ddarparu i broject cyffrous i'r ddinas.' Aeth ymlaen i gadarnhau yr ymgymerwyd â phrofi'r farchnad yn y cyfnod ar ôl cyfarfod y Pwyllgor ac y bydd yn rhoi manylion o ganlyniadau'r ymarfer yn y dyfodol agos. Cadarnhaodd hefyd ei fod yn 'hapus i ddod â'r eitem i Craffu yn ddiweddarach gyda'r swyddogion priodol – gan gynnwys swyddogion ariannol a chyfreithiol - yn ogystal ag unrhyw unigolion perthnasol eraill.'

**Britannia Park – Harbour Drive**

Ym mis Tachwedd 2018, ystyriom adroddiad i'r Cabinet parthed caffael tir yn Harbour Drive, Bae Caerdydd. Datganodd yr adroddiad y byddai'r caffaeliad yn amddiffyn ymyl y Bae at ddefnydd hamdden a darparu cyfleoedd am fuddsoddi'n briodol er mwyn gwella ymhellach amwynder Bae Caerdydd.

Wedi ystyried y cynnig ac unrhyw risgiau i'r Cyngor, rhoesom ein cefnogaeth i'r caffaeliad arfaethedig, yn amodol ar ragor o wiriadau diwydrwydd dyladwy ac arfarnu'r tir yn annibynnol ac i ddefnydd lesau Atgyweiriadau ac Yswirio Llawn, er mwyn amddiffyn y Cyngor rhag rhagor o gostau. Ceisiom sicrwydd na fyddai costau cadw'r safle yn feichus ac roeddem yn falch o glywed y byddai derbynebau gwerthu tir ac incwm o leoliadau a digwyddiadau yn y dyfodol ar y safle yn talu'r rhain.

Dros dro rydym wedi amserlennu craffu ar gynllun meistr cyffredinol Bae Caerdydd, a fydd yn cynnwys y safle hwn, ar gyfer Mehefin/Gorffennaf 2019 ac yn edrych i weld sut mae hyn yn ceisio lleihau dibynnu ar geir trwy gynyddu rhwyddineb defnydd llwybrau cerdded a beicio a gwneud y mwyaf o drafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy.

**Llwybr y Papur Gwyn Datblygu Economaidd**

Yn dilyn cyhoeddi Papur Gwyrdd Datblygu Economaidd, gwnaethom ymrwymo i graffu ar y Papur Gwyn dilynol cyn ei ystyried yn y Cabinet. Ym mis Rhagfyr

2018, trafodom y llwybr ymlaen ar gyfer Papur Gwyn Datblygu Economaidd gyda'r Cynghorydd Russell Goodway, yr Aelod Cabinet – Buddsoddi a Datblygu, a fynegodd ei ddymuniad i fynd â drafft i'r Cyngor i'w drafod cyn dod ag ef i'w graffu.

Roeddem yn gwerthfawrogi'r dyhead i alluogi'r Cyngor i drafod y datganiad polisi pwysig cyn penderfynu arno, mae cydnabod hyn yn cryfhau rôl y Cyngor. Hefyd gwnaethom werthfawrogi gwarant y Cynghorydd Goodway y byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i wneud craffu cyn penderfyniad ar y Papur Gwyn, cyn penderfyniad y Cabinet ar y Papur Gwyn.

Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodom fod y Cyfansoddiad yn fud o ran Papur Gwyn; argymhellom fod y Cyngor yn mynd i'r afael â hyn cyn gynted ag  y bo modd, trwy fynd ag adroddiad trwy'r sianeli priodol sy'n gosod proses glir ar gyfer Papurau Gwyn.
Yr amserlin gwreiddiol oed mynd â'r Papur Gwyn i'r Cyngor ym mis Ionawr 2019, a mynd ag ef i'r Pwyllgor hwn y mis canlynol; fodd bynnag, canslwyd y Cyngor ym mis Ionawr oherwydd y risg o broblemau oherwydd eira ac wedyn aethpwyd y Papur Gwyn i'r Cyngor ym mis Mawrth.

**Strategaeth Economaidd Drafft: Papur Gwyn Datblygu Economaidd**

Yn dilyn trafodaeth yn y Cyngor Llawn y mis Mawrth 2019, ystyriom y Strategaeth Economaidd drafft (Papur Gwyn) ym mis Ebrill 2019. Yn gyffredinol, cefnogodd yr Aelodau y nodau ac amcanion a ddisgrifiwyd yn y Strategaeth a chydnabu ei fod yn rhoi fframwaith lefel uchel sy'n rhoi ffocws ac eglurder parthed blaenoriaethau. Eglurodd yr Aelodau y byddent yn chwilio am fanylion penodol, gan gynnwys camau gweithredu, pethau cyflawnadwy ac amserlenni, yn y gyfres o gynlluniau a fydd o dan y Strategaeth hon. Rydym yn sicr y byddwn yn craffu ar y cynlluniau hyn i weld eu bod yn rhoi eglurder ac atebolrwydd i'r llwybrau a ddefnyddir i gyflawni'r nodau a'r amcanion hyn a themâu tanategol Twf Cynhwysol a Datblygu Cynaliadwy.

Yn y cyfarfod, archwiliom gysylltiadau rhwng datblygu economaidd, trafnidiaeth, addysg a thwf cynhwysol. Ailadroddom ein cred bod trafnidiaeth gyhoeddus dda a gwaith i godi dyheadau disgyblion a mynediad at gyfleoedd yn hanfodol ar gyfer twf cynhwysol.

Argymhellodd y dylid ychwanegu asesiad o sut mae'r Strategaeth Economaidd drafft yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol at yr adroddiad i'r Cabinet. Trafodom y fetreg a rhestrir yn y Strategaeth ac awgrymom y dylai'r rhain gael eu grwpio yn ôl y themâu tanategol o Dwf Cynhwysol a Datblygu Cynaliadwy, oherwydd y byddai hyn yn rhoi eglurder parthed sut mae'r weinyddiaeth yn bwriadu mesur cynnydd yn

y meysydd hyn. Yn y cyfarfod, gofynnom sut y defnyddid y dangosyddion yn y dyfodol gan nodi y cânt eu cymhwyso fesul ward er mwyn galluogi camau gweithredu a dargedir i'w cymryd er mwyn mynd i'r afael â pherfformiad gwael. Hefyd roedd yn ddiddorol i ni glywed y cânt eu defnyddio i ddysgu gwersi wrth ffurfio projectau'r dyfodol a chanlyniadau arfaethedig a gofynnom am ragor o fanylion ar sut y gellir defnyddio'r fetreg a ddangosir i gyflawni hyn.

Hefyd rhoesom ein cefnogaeth i nifer o bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaeth y Cyngor ar y Papur Gwyn drafft, gan gynnwys: sicrhau bod cynlluniau'n gweithio i leihau NEETS (pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant), gwella Cyfleoedd Gwaith i Bobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal, lleihau anghyfartaledd a datblygu sgiliau; sicrhau bod cynlluniau yn cyfeirio at y cyfleodd sy'n deillio o ddileu tollau Pont Tywysog Cymru, ffordd liniaru a newidiadau i gyfraddau busnes; a sicrhau bod cynlluniau'n mynd i'r afael â'r angen i adfywio Heol yr Eglwys Fair.

Yn ei ymateb, rhoddodd y Cynghorydd Goodway esboniad o sut mae'r Strategaeth Economaidd yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Hefyd darparodd tabl yn grwpio'r fetreg yn ôl y themâu tanategol a rhoddodd ragor o fanylion o sut y câi'r fetreg ei defnyddio i ffurfio projectau.

**Arwain Strategaeth Cerddoriaeth: Ecosystem Cerddoriaeth ac Argymhellion Strategol**

Yn Ebrill 2019, derbynio frîff cyflwyno yn crynhoi darganfyddiadau'r gwaith a wnaed gan Sound Diplomacy, yr ymgynghorwyr gan y Cyngor i fapio'r ecosystem cerddoriaeth yng Nghaerdydd a darparu argymhellion strategol i arwain datblygu Strategaeth Cerddoriaeth i Gaerdydd.

Croesawodd yr Aelodau waith Sound Diplomacy ac roeddem yn falch o glywed ystod yr ymgysylltu gyda rhanddeiliaid sydd wedi amlygu'r meysydd y byddai angen i Strategaeth Cerddoriaeth fynd i'r afael â nhw. O ystyried lefel yr ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r angen i gynnal a chadw'r ymgysylltiad a'r momentwm hwn er mwyn galluogi Caerdydd i symud ymlaen fel Dinas Cerddoriaeth, argymhellodd yr Aelodau fod pob rhanddeiliad a gyfrannodd trwy ddigwyddiadau ymgysylltu Sound Diplomacy yn cael cyfle i wneud sylwadau ar yr argymhellion strategol.

Credodd yr Aelodau y bydd Strategaeth Cerddoriaeth i Gaerdydd yn arwain at fuddion creadigol ac economaidd i breswylwyr, ymwelwyr, busnesau a'r rhai sy'n gweithio yng Nghaerdydd, yn ogystal ag ar draws y rhanbarth. Rydym yn falch bod cwmpas arfaethedig y strategaeth yn eang, heb fod yn gyfyngedig i gerddoriaeth fyw neu *genre* penodol ond yn cwmpasu pob *genre* a'r ecosystem cerddoriaeth ledled y ddinas. Codom ein pryder y dylai'r Strategaeth Cerddoriaeth sicrhau bod cerddoriaeth yn hygyrch ac yn gynhwysfawr ar gyfer yr holl bobl ifanc, nid yn unig yn nhermau bod yn gerddorion ond hefyd yn nhermau datblygu ymwybyddiaeth a setiau sgiliau disgyblion fel y gallant elwa ar yr ystod o rolau medrus sy'n bodoli ar draws yr economi cerddoriaeth.

Yn nhermau'r Bwrdd Cerddoriaeth partneriaeth arfaethedig, amlygom ein cred y bydd aelodaeth o'r Bwrdd yn hanfodol i lwyddiant gwaith yn y maes hwn; roeddem yn falch o glywed y bydd aelodaeth yn eang ac yn gynhwysol, gyda nifer o is-grwpiau i ddarparu ffocws ar agweddau penodol.

Amlygodd yr Aelodau eu dymuniad i fod yn rhan o ddatblygu polisïau a craffu cyn penderfynu ar y Strategaeth Cerddoriaeth wrth iddi fynd yn ei blaen.

## Y Fargen Ddinesig

Ym mis Mehefin 2018, mynychodd Y Cynghorydd Huw Thomas, yr Arweinydd, yn rhinwedd ei swydd fel aelod o Gydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac aelod blaen portffolio ar gyfer y Fargen Ddinesig, y pwyllgor i gyflwyno adroddiad a gynigion sefydlu Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu (JOSC) ar gyfer y Fargen Ddinesig.

Ystyriom y cynigion, yn edrych yn benodol ar y cylch gorchwyl drafft a materion sy'n ymwneud a'r cynrychiolydd a'r dirprwy a enwebwyd, megis: hyd y penodiad, y set o sgiliau sydd ei angen; ac a ddylid cael taliad i Gadeirydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Yn gyffredinol, cefnogom sefydlu JOSC, gan gydnabod nad yw hyn yn eithrio pwyllgorau craffu awdurdodau lleol rhag penderfynu cynnal craffu unigol ar y Fargen Ddinesig. Teimlom y dylai'r Cyngor penodi enwebeion yn flynyddol a bod yn archwilwyr profiadol, sydd â gwybodaeth o'r Fargen Ddinesig a sgiliau proffesiynol a fydd o werth a chymorth i'w rôl ar y JOSC.

Ni chefnogom y cynnig i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y JOSC i '*gylchdroi'n flynyddol rhwng yr awdurdodau penodi yn nhrefn yr wyddor'.* Yn hytrach, dylai'r JOSC benderfynu ar y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, yn unol â'r arweiniad a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymry parthed sefydlu'r JOSC. Nid oeddem yn credu y dylid talu'r Cadeirydd, yn enwedig os yw eisoes yn derbyn lwfans cyfrifoldeb arbennig.

Roedd ein sylwadau'n gynwysedig yn yr adroddiad i'r Cyngor, a ystyriwyd ar 19 Gorffennaf 2018, lle
nododd yr Aelodau ein hargymhellion a chytuno i gymeradwyo sefydlu JOSC. Cyfarfu'r JOSC am y tro cyntaf ym mis Hydref 2018.

Ers hynny, rydym wedi derbyn tri diweddariad ar waith yn JOSC, ym mis Rhagfyr 2018, mis Ionawr 2019 a mis Ebrill 2019. Derbyniom gopi o hyperddolenni at bapurau cyfarfodydd a chofnodion drafft er mwyn gweld pa feysydd maent yn bwriadu eu craffu, er mwyn i ni osgoi dyblygu, a chadw i fyny gyda gwybodaeth a rennir gyda nhw.

## Gwasanaethau Blaen y Tŷ

Rôl allweddol y Pwyllgor hwn yw craffu ar ddarparu gwasanaethau blaen y tŷ y mae'n cylch gorchwyl yn eu cynnwys, gan gynnwys gwasanaethau cyflogaeth, dysgu cymunedol i oedolion, llyfrgelloedd, hybiau, hamdden a chwaraeon. Mae'r gwasanaethau hyn yn hanfodol i well bywydau pobl, helpu pobl i mewn i waith, hybu iechyd a lles a hyrwyddo cydlynu cymunedol. Bu newidiadau sylweddol i'r gwasanaethau hyn yn y blynyddoedd diweddar a blaenoriaethom craffu ar y gwasanaethau hyn i ddeall effaith y newidiadau hyn, monitro perfformiad ac asesu a oes meysydd sydd angen eu gwella.

<u>Gwasanaethau Cyflogaeth yng Nghaerdydd</u>

Ym mis Rhagfyr 2018, craffo ar gynnydd wrth ddarparu'r gwasanaethau cyflogaeth newydd yng Nghaerdydd, a lansiodd yn Ebrill 2018. Roeddem eisiau deall cyfraddau ymgymryd a defnydd ar gyfer y gwasanaethau hyn, ar gyfer y rhai sy'n ceisio cyflogaeth, pobl hunangyflogedig a dechreuwyr yn ogystal â chyflogwyr.

Cawsom ein siomi ar yr ochr orau gydag ystod a chwmpas y gwasanaethau a ddarperir a nifer y lleoliadau sy'n cynnig clybiau gwaith. Teimlom y byddai lle o bosibl ar gyfer lleoliadau ychwanegol ac roeddem yn falch bod hyn wedi cael ymateb cadarnhaol.

Teimlom fod cyfle i ddarparu cefnogaeth tymor hwy i fusnesau sy'n cychwyn, y mae llawer ohonynt yn methu yn ystod y pum mlynedd cyntaf. Rydym yn falch y cafodd hyn ei gydnabod gan y Cynghorydd Thorne, Aelod Cabinet – Tai a Chymunedau, yn ei hymateb i'r craffu hwn ac yn y dyfodol y bydd ein Cynghorydd Hunangyflogaeth I Mewn i'r Gwaith yn cynnal sesiynau *'dilyn i fyny naid'* er mwyn cynnig cefnogaeth ymarferol i'r busnesau cychwynnol hyn.

Argymhellon hefyd fod swyddogion yn ymchwilio i gyfleoedd i fasnacheiddio eu gwasanaethau parthed cefnogaeth i fusnesau ac rydym yn falch y cytunwyd ar hyn ac y bydd gwasanaethau'n cael eu hysbysebu i fusnesau lleol.

Rydym yn ymwybodol o bryderon parthed newidiadau i gyllid ac wedi gofyn i unrhyw gynigion mewn perthynas â hyn ddod i'w graffu cyn y penderfyniad, ac mae'r Cynghorydd Thorne, Aelod Cabinet – Tai a Chymunedau wedi dweud ei bod yn fodlon i hyn gael ei wneud.

<u>Dysgu Cymunedol Oedolion – Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru</u>

Cynhaliom gyfarfod fforwm i ystyried yr ymateb drafft gan Gyngor Caerdydd i gynigion Llywodraeth
Cymru i newid y cyllid ar gyfer Dysgu Cymunedol i Oedolion (ACL).

Yn dilyn ein craffu, ysgrifennom at Lywodraeth Cymru, gan ofyn ei bod yn ystyried ein llythyr fel ymateb swyddogol i'w dogfen ymgynghori. Mynegom ein pryder dwfn am effaith dysgu i oedolion yng Nghaerdydd y bydd yr holl fodelau arfaethedig yn ei chael os cânt eu gweithredu yn eu ffurf bresennol; mae'r rhain oll yn dangos gostyngiad o 50% o leiaf mewn cyllid. Amlinellom ein cyfrifoldeb dros graffu ar ddysgu cymunedol i oedolion a'n bod, dros y blynyddoedd diweddar, wedi nodi gwelliannau mawr o ran perfformiad. Amlygom fod ein craffu wedi dangos y gwelliant sylweddol i gyfleoedd unigolion mewn bywyd y mae dysgu effeithiol i oedolion yn ei ddarparu; mae'r buddion hyn yn tonni allan i aelodau'r teulu, i gymunedau lleol ac, yn y pen draw, economi gyfan y rhanbarth.

Rhoddom ein cefnogaeth a'n hardystiad llawn i ymateb Cyngor Caerdydd ac i'r ymagwedd diweddar er mwyn cysylltu ag I Mewn i'r Gwaith a Dysgu Cymunedol i Oedolion. Cafodd ein hymateb ei gynnwys yn rhestr Llywodraeth Cymru yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Rydym yn aros am ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn ac rydym wedi ymrwymo i graffu ar gynigion a ddatblygwyd fel ymateb i hyn.

Llyfrgelloedd a Hybiau

Ym mis Mai 2018, craffom ar gynigion i greu hybiau cymunedol a lles yng ngogledd a gorllewin Caerdydd, trwy lyfrgelloedd cangen cymunedol. Hefyd archwiliom gynigion parthed y Llyfrgell Ganolog a chynlluniau i ddatblygu Strategaeth i Lyfrgelloedd.

Amlygom ein bod yn dymuno gwneud rhagor o graffu pellach wrth i gynigion ddatblygu, yn benodol parthed cyllid cyfalaf a newidiadau sylweddol i adeiladau presennol. Argymhellom fod adolygiadau maes arfaethedig yn cymryd i ystyriaeth gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ac rydym yn falch bod y Cynghorydd Thorne, Aelod Cabinet - Tai a Chymunedau, wedi derbyn yr argymhelliad hwn.

Fel rhan o'n rôl craffu, yn Awst 2018 ymwelom â Staciau'r Llyfrgell yn Dominions Way er mwyn deall sut mae'r rhain yn gweithio a'r adolygiadau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd i gatalogion casgliadau. Trafodom sut i ofalu a chadw llyfrau a chasgliadau hynafol a phrin yn ogystal ma sut i gynyddu hygyrchedd i'r cyhoedd. Ystyriom yr angen i waredu deunyddiau dyblyg i leihau'r lle storio sydd ei angen, gan olygu y gallai'r staciau symud i fan storio mwy addas. Hefyd amlygom ein barn y gallai rhywfaint o'r gwaith celf a storir yn y staciau fod â photensial masnachol, yn nhermau ei brydlesu i gwmnïau lleol sy'n dymuno cefnogi arlunwyr Cymru.

Ym mis Ionawr 2019, ystyriom asesiad blynyddol Llywodraeth Cymru o wasanaethau llyfrgelloedd, a adroddodd ar ein perfformiad yn erbyn chweched set o Safon Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2017-2020 '*Connected and Ambitious Libraries'.* Gwelsom fod ein perfformiad wedi gwella a'n bod yn perfformio'n dda o'i gymharu a gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru. Clywsom nad ydym yn bodloni un o'r deuddeg hawliad craidd, sef bod â strategaeth llyfrgelloedd gyffredinol, ond bod gwaith ar hyn yn mynd rhagddo. Clywsom hefyd, allan o ddeg dangosydd ansawdd sydd â thargedau, nid ydym yn bodloni tri o'r rhain yn llawn. Fodd bynnag, derbyniom esboniadau o'r rhesymau dros hyn ac roeddem yn fodlon bod camau ar waith i wella perfformiad h.y. staff yn ymgymryd â chymwysterau llyfrgellyddiaeth cydnabyddedig; ac mae system rheoli llyfrgelloedd newydd yn cael ei gweithredu a fydd yn ei wneud yn haws i gwsmeriaid gael mynediad at ddeunyddiau sydd ar gael, yn bersonol ac yn rhithwir.

Ym mis Chwefror 2019, edrychom ar gynigion cyllidebol 2019-20 ar gyfer llyfrgelloedd a hybiau ac amlygom fod Aelodau'n awyddus i chwarae rôl mewn digwyddiadau ymgynghori, fel aelodau wardiau lleol, fel y caiff cynlluniau eu diwygio i adlewyrchu hoffterau ac anghenion cymunedau lleol. Rydym yn falch o'r sicrwydd a dderbyniwyd mai dyma sy'n wir a ac y gwerthfawrogir rôl aelodau'r ward, yn nhermau arwain cynlluniau ac annog ymgymryd gan breswylwyr.

Rydym wedi amserlennu, dros dro, craffu Strategaeth Llyfrgelloedd drafft ar gyfer mis Mehefin 2019.

<u>Partneriaeth Rheoli Hamdden gyda GLL</u>

Yn 2016, cymerodd GLL gyfrifoldeb dros reoli'r rhan fwyaf o ganolfannau hamdden y Cyngor. Ym mis Rhagfyr 2017, craffodd Aelodau'r Pwyllgor flwyddyn gyntaf gweithredu'r bartneriaeth. Roedd yr aelodau'n awyddus i brofi a oedd y bartneriaeth yn bodloni anghenion dinasyddion a chymunedau Caerdydd a gwnaethant ddosbarthu datganiad i'r wasg sy'n ceisio barn dinasyddion Caerdydd ar sut mae'r canolfannau hamdden yn cael eu rhedeg. Derbyniwyd ymatebion gan fwy na 70 o breswylwyr, a choladwyd a rhannwyd ymatebion gydag Aelodau'r Pwyllgor a'r bartneriaeth. Yn y cyfarfod, defnyddiodd Aelodau'r Pwyllgor yr ymatebion hyn i fframio trywyddau ymholi gyda'r bartneriaeth.

Ym mis Ionawr 2019, craffom ar berfformiad y Cyngor a GLL dros y flwyddyn diwethaf wrth ddarparu gwasanaethau canolfannau hamdden sy'n gynwysedig yng nghontract Partneriaeth Rheoli Canolfannau Hamdden. Gwnaethom ganolbwyntio ar gyfraddau cyfranogi a defnydd, defnydd ystafelloedd mewn canolfannau hamdden gan sefydliadau'r sector cyhoeddus a chyflawni'r rhaglen gyfalaf. Hefyd gofynno a oes unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau a gwirio a oes unrhyw newidiadau i ymrwymiadau'r Cyngor neu risgiau i'r Cyngor.

Roeddem yn falch o glywed bod partneriaeth go iawn yn gweithio trwy fwrdd cysylltu cryf sy'n derbyn gwybodaeth monitro gadarn ac yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r cynnig hamdden i Gaerdydd. Roeddem wrth ein bodd gyda'r tueddiadau sy'n gwella parthed cyfraddau cyfranogi a defnydd a'r gwaith a dargedir i gynyddu cyfranogi gan bobl sydd ag anableddau, sy'n arwain at lefelau aelodaeth uwch. Gwnaethom brofi bodlonrwydd GLL i gadw prisiau mor fforddiadwy â phosibl ac i wella hygyrchedd trwy ehangu oriau agor ac roeddem yn falch o glywed ymatebion cadarnhaol ar y ddau o'r rhain. I helpu i barhau i

yrru boddhad gwell i gwsmeriaid, gofynnom i dderbyn nifer y cwynion fesul 100,000 mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol.

Cawsom ein sicrhau fod y rhaglen gyfalaf ar y trywydd cywir ac na chafodd unrhyw ymrwymiadau neu risgiau newydd i'r Cyngerdd eu nodi. Yn olaf, cadarnhaom ein bod yn dymuno clywed rhagor o fanylion am waith, yn 2019, i wella ymhellach y cynnig hamdden yng Nghaerdydd; rydym yn edrych ymlaen at glywed mwy o fanylion am hyn maes o law.

Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO): Rheoliadau Cŵn Arfaethedig

Ym mis Tachwedd 2018, cynhaliom Gyfarfod Cydbwyllgor gyda'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol i gynnal craffu ar ddatblygu polisïau ar adroddiad i'r Cabinet ar PSPO: Rheoliadau Cŵn Arfaethedig. Tra bod baeddu cŵn yn dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol, roedd y cynigion yn cynnwys gwahardd cŵn o feysydd chwaraeon ac roedd y Pwyllgor hwn felly eisiau cael y cyfle i wneud sylwadau.

Fel rhan o'r craffu hwn, ystyriom yr ymarfer ymgynghori a wnaed parthed y cynigion a chlywsom gan ystod o randdeiliaid, yn y cyfarfod a thrwy gyfraniadau ysgrifenedig, gan gynnwys: preswylwyr Caerdydd; cynghorwyr lleol, gan gynnwys cynrychiolydd y Grŵp Cyngor Pob Plaid Caring4K9s; perchnogion cŵn lleol; Guide Dog Cymru, Pwyllgor Rheoli Mannau Hamdden Creigiau; Cardiff Dog Action; a The Dogs Trust.

Yn dilyn ein craffu ysgrifennodd y Cynghorydd Bradbury *'Hoffwn ddiolch i'r adran craffu am eich adolygiad. Mae'r broses wedi cefnogi cysylltiad ac ymgysylltu gyda Cardiff Dog Action a grwpiau cŵn eraill'.* Parhaodd gan ddweud ei fod wedi '*ymrwymo i gyfarfod â Cardiff Dog Action a grwpiau eraill yn rheolaidd.'*

Yn ystod ein craffu, amlygodd rhanddeiliaid yr angen am Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) i'w cwblhau i sicrhau bod y PSPO ar gyfer rheoli cŵn yn briodol ac yn addas at y diben. Ailadroddom y pwynt hwn yn ein llythyr ac ymatebodd y Cynghorydd Bradbury y câi EqIA ei gwblhau '*trwy ymgysylltu â Guide Dogs Cymru a grwpiau defnyddwyr agored i niwed'.*

Hefyd amlygom pryderon gyda'r arolwg ymgynghori, yn nhermau iaith a ddefnyddir a strwythur: yn ei ymateb, dywedodd y Cynghorydd Bradbury '*Rydym wedi dysgu gan yr*

*arolwg ymgynghori ac mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i'r adran craffu i adolygu unrhyw arolygon ymgynghori tebyg ledled y ddinas cyn cychwyn.'*

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'n Pwyllgor trwy gyfraniadau ysgrifenedig ac yn y cyfarfod, gwnaethom restru cynlluniau a mesurau amrywiol ar gyfer gwella ymddygiad cŵn gan awgrymu bod y Cyngor yn archwilio'r rhain ymhellach. Yn ei ymateb ymrwymodd y Cynghorydd Bradbury i weithio gyda Cardiff Dog Action a grwpiau eraill '*i edrych ar gynlluniau i gefnogi ymddygiad da o ran perchnogaeth cŵn ledled Caerdydd. Bydd hyn yn cynnwys adolygu syniadau a awgrymir gan graffu.'*

Yn olaf, gofynnom i'r adroddiad arfaethedig i'r Cabinet gael ei gyflwyno i'w graffu cyn y penderfyniad, a gytunwyd gan y Cynghorydd Bradbury. Ym mis Mawrth 2019, rhyddhawyd cynigion terfynol am PSPO: Rheoliadau Cŵn, a ddangosodd fod y PSPO wedi'i ddiwygio i eithrio meysydd chwaraeon. Felly ymgymerodd y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol â'r craffu dilynol cyn y penderfyniad.

## Cynllun Corfforaethol 2019-22 a Chynigion Cyllidebol 2019-20

Yn ein cyfarfod yn Chwefror 2019, ystyriom Cynllun Corfforaethol drafft y Cyngor a'r cynigion cyllidebol drafft ar gyfer 2019-20. Gwnaeth aelodau:

- Argymell bod y cam '*i ddatblygu cynllun busnes i ddiogelu asedau hanesydd y ddinas',* a oedd yn y Cynllun Corfforaethol 2018-2021, yn cael ei gynnwys yn fersiwn derfynol y Cynllun Corfforaethol a gyflwynwyd i'r Cyngor.
- Amlygu ein bod yn bwriadu craffu'r cam '*Datblygu gweledigaeth a chynllun meistr ar gyfer Bae Caerdydd erbyn 2020, gan gynnwys symud cyflawni cam nesaf y datblygiad ymlaen ar gyfer y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol erbyn 2019'*
- Amlygu y byddwn yn argymell i bwyllgor yn y dyfodol eu bod yn craffu ar gynnydd ar gyflawni arbedion sy'n dod o fewn ein cylch gorchwyl, yn ogystal ac ariannu cyfalaf a'r mater o fforddiadwyedd ar gyfer yr Arena Dan Do

- Croesawu’r cynnig gan y Cynghorydd Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad er mwyn trafod ymgynghoriad cyllidebol gyda Chadeiryddion Craffu ac aelodau Craffu, mewn ymdrech i hybu ymgysylltu.
- Nodi lefelau arbedion sylweddol gan y Gyfarwyddiaeth Economaidd
- Codi ein pryderon ynglŷn ag effaith yr arbedion parthed digwyddiadau, twristiaeth, marchnata a digwyddiadau busnes, gan godi rhybudd bod llawer o sefydliadau partner hefyd yn wynebu gostyngiadau yn y gyllideb.
- Datgan ein dymuniad yn glir i graffu unrhyw model gweithredu arfaethedig newydd ar gyfer y Theatr Newydd.
- Ailadrodd ein dyhead hir-sefydlog i hybu nifer y ceidwaid parciau y gwelodd ein Hymchwiliad i Ariannu Parciau yng Nghaerdydd (Ebrill 2018) eu bod yn sicrhau bod ein parciau yn fannau diogel ac y gwneir y mwyaf o gyfraniadau gwirfoddolwyr.
- Cadarnhau ein dymuniad i graffu ar adolygiad Llywodraeth Cymru ar drefniadau ariannu Awdurdod Harbwr Caerdydd.
- Ailddatgan ein hymrwymiad i graffu newidiadau i ddysgu cymunedol oedolion, llyfrgelloedd a hybiau.

Ymatebodd Chris Weaver, Aelod Cabinet – Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, gan nodi'r pwyntiau uchod a diolch i’r Pwyllgor am eu cefnogaeth yn y broses gyllidebol.

# Monitro

Monitro Perfformiad

Penderfynom i barhau â’r ymagwedd y gwnaethom eu treialu yn 2018/19 i graffu ar berfformiad,  gan dderbyn adroddiadau perfformiad chwarter 1, 2 a 3 trwy e-bost, gyda chrynodeb o bwyntiau allweddol wedi'u darparu gan Swyddog Craffu y Pwyllgor. Yna cawsom y cyfle i adolygu’r adroddiadau, codi unrhyw bryderon a, lle y bo angen, gofyn i’r Aelod Cabinet a’r swyddog perthnasol gael eu gwahodd i’r cyfarfod Pwyllgor nesaf i drafod materion perfformio a chamau gweithredu lliniaru eraill. Byddem yn derbyn yr adroddiad chwarter 4 yn y pwyllgor, er mwyn galluogi'r Aelodau i adolygu perfformiad y flwyddyn gyfan.

Ym mis Mehefin 2018, ystyriom adroddiad perfformiad chwarter 4 ar gyfer 2017/18. Gwelsom, yn gyffredinol, fod perfformiad da yn erbyn targedau ar draws y Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd a bod y lefelau perfformio a gyflawnwyd ar draws llyfrgelloedd,

hybiau gwasanaethau i mewn i'r gwaith a dysgu cymunedol i oedolion, yn y Gyfarwyddiaeth Tai a Chymunedau, yn plesio. Fel rhan o'n trafodaethau, canolbwyntiom ar ymwelwyr i'r stryd fawr; rydym yn credu y byddai'n fuddiol i ddysgu gwersi gan ymagweddau a gymerir yn rhywle arall sydd wedi hybu ymwelwyr â'r economi gyda'r dydd ar y strydoedd mawr.

Hefyd trafodom a yw ein hadroddiadau perfformiad yn cynnwys dangosyddion priodol sy'n cipio effaith y Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd ac roeddem yn falch o glywed y Cyfarwyddwr yn dweud ei fod yn agored i adolygu dangosyddion; er mwyn arwain hyn, cytunom i edrych ar ddangosyddion a ddefnyddir gan awdurdodau lleol eraill i weld a fyddai dangosyddion perfformiad eraill yn ddefnyddiol.

Ym mis Medi 2018, ystyriom adolygiad desg o ddangosyddion perfformiad datblygu economaidd a adroddwyd i graffu yn ninasoedd craidd Bryste, Birmingham, Manceinion, Leeds a Sheffield. Roedd nifer y dangosyddion perfformiad a adroddir i'r adran craffu yn amrywio o naw i 32. Roedden nhw i gyd yn cynnwys dangosyddion ar gyfer gweithgarwch economaidd ac roedd gan y rhan fwyaf ddangosyddion parthed busnesau, GVA, sgiliau ac economi ymwelwyr.

Derbyniom yr adroddiadau perfformiad chwarterol eraill trwy e-bost; nid oedd unrhyw faterion yn y rhain a oedd angen eu hystyried yn y Pwyllgor. Byddwn yn craffu'r adroddiad chwarter 4 2018/19 yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Mehefin/Gorffennaf 2019.

<u>Monitro Cyllidebol</u>

Hefyd penderfynom barhau â'r ymagwedd at fonitro cyllidebol y gwnaethom ei dreialu yn 2018/19, gan dderbyn adroddiadau monitro cyllidebol Mis 4, Mis 6 .a Mis 9 trwy e-bost, gyda chrynodeb yn amlygu meysydd allweddol i edrych arnynt wedi'i ddarparu gan Swyddog Craffu y Pwyllgor. Ni amlygodd yr adroddiadau hyn unrhyw broblemau yn y meysydd rydym yn ymwneud â nhw, a oedd angen craffu arnynt yn y pwyllgor.

<u>Cynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth</u>

Ystyriom adrannau perthnasol Cynllun Cyflawni
y Gyfarwyddiaeth Tai a Chymunedau ym mis Mai 2018 a Chynllun Cyflawni y Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd ym mis Mehefin 2018.

Gwnaethom asesu a yw’r Cynlluniau hyn yn helpu wrth gyflawni Cynllun Llesiant Caerdydd a Chynllun Corfforaethol y Cyngor, a ydynt yn canolbwyntio ar y materion cywir ar gyfer cymunedau lleol ac a yw'r cynlluniau'n gadarn ac yn addas at y diben. Gwirio a yw’r adnoddau’n ddigonol i gyflawni’r Cynlluniau ac a yw’r mesurau perfformiad yn ddigonol i fonitro cyflawni.

Gwelsom fod y Cynlluniau’n addas at y diben a bod fframwaith rheoli prosesau a pherfformiad cadarn ar waith i fonitro gweithredu a chyflawni. Defnyddiom y wybodaeth a gafwyd parthed heriau’r dyfodol a chamau gweithredu arfaethedig i helpu i arwain ein rhaglen waith ar gyfer 2018-19.

## RHAGLEN WAITH AR GYFER 2019-20

Caiff Aelodau’r Pwyllgor eu gwahodd i ystyried eitemau i’w cynnwys o bosibl yn rhaglen waith y Pwyllgor yn ystod 2019-20. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i dynnu materion at ei gilydd er mwyn i'r Pwyllgor eu hystyried. Wedyn caiff rhaglen waith ddrafft ei datblygu a’i chyflwyno i’r Pwyllgor i’w chymeradwyo a’i gweithredu. Byddai’r Pwyllgor yn croesawu awgrymiadau ar gyfer eitemau craffu gan Aelodau eraill.

## GWAITH CRAFFU YN Y DYFODOL

Yn ystod ei ystyriaethau eleni, mae’r Pwyllgor wedi argymell bod yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried i'w cynnwys yn rhaglen waith 2019-20 y Pwyllgor:

- Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
- Gorsaf Bysus Caerdydd.
- Metro Canolog – Gorsaf Ganolog Caerdydd.
- Strategaeth Ddiwydiannol Dwyrain Caerdydd.
- Strategaeth Cerddoriaeth.
- Arena Dan Do Aml-ddefnydd.
- Pentref Chwaraeon Rhyngwladol.
- Adfywio Dumballs Road.
- Adfywio Bae Caerdydd.
- Adeiladau Treftadaeth.
- Cynllun Meistr Chwarter y Gamlas.
- Canolfan Gelfyddydau’r Chapter.

- ❖ Awdurdodau Harbwr Caerdydd. Chwaraeon Caerdydd
- Strategaeth Chwaraeon a Gweithgareddau Corfforol.
- Rheoli Hamdden.
- Strategaeth Llyfrgelloedd.
- Llyfrgelloedd a Hybiau.
- Safonau Llyfrgelloedd Cymru.
- Adroddiadau Perfformiad.
- Adroddiadau am Arbedion. ❖ Adroddiadau Archwilio, Arolygu a Rheoleiddiol Perthnasol.
- Ymatebion y Cabinet i Ymchwiliadau blaenorol, a gweithredu argymhellion y cytunwyd arnynt o ymchwiliadau blaenorol.

Gwasanaethau Craffu, Cyngor Caerdydd,
Ystafell Bwyllgor 263, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd CF10 4UW.
Ffôn: 029 2087 2953 E-bost:
scrutinyviewpoints@caerdydd.gov.uk © 2019 Cyngor Caerdydd